# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes a Llinos Medi Huws. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd R Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim

### 2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

### PENDERFYNWYD:-

**""O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

### 3 PENODIADAU STAFF

#### Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Adroddodd y Prif Weithredwr, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 17 Mawrth 2021 bod y swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wedi ei hysbysebu ar 26 Mawrth 2021 tan 19 Ebrill 2021.

Dywedodd y Prif Weithredwr, yn unol ag arferion recriwtio safonol, bod rhestr fer annibynnol wedi ei ffurfio yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ceisiadau ac fe gafodd ei argymell bod yr ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r trothwy yn cael eu cyfweld. Cafodd ei argymell bod y Pwyllgor penodiadau yn dilyn yr un broses ag sydd wedi'i dilyn â nifer o benodiadau ar lefel uwch sef proses tri cham sef:-

- Cyfweliad allanol â Gatenby Sanderson yn seiliedig ar broses o brofion seicometrig ar gyfer yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer;
- Cyfweliad proffesiynol i'w gynnal gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Proffesiwn AD fel ffordd o gadarnhau cywirdeb y ffurflen gais;
- Cyfweliad gyda'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn gwneud penderfyniad ar ba ymgeisydd, os unrhyw un, a ddewisir yn dilyn ystyried y ddau gam blaenorol a gyflwynir mewn adroddiad cyn y cyfweliad ffurfiol â'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD bod argymhelliad y Prif Weithredwr mewn perthynas â llunio rhestr fer a'r broses tri cham yn cael ei gefnogi'n unfrydol fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y mater.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**